| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 30 Mehefin 2015 |
| **TEITL** | Grant Gwella Addysg 2015/16 |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**1. Cefndir**

1.1 Rwyf eisoes wedi adrodd i gyfarfodydd Tachwedd 2014 a Chwefror 2015 am y cefndir i'r grant 'newydd' yma gyda Llywodraeth Cymru yn uno 11 grant blaenorol gan weithredu toriad o 10% ar y run pryd.

1.2 Adroddir nawr ar sail ac dosbarthiad y grant i Ysgolion a defnydd arall o'r grant.

**2. Manylion Ariannol**

2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu'r grant i'r pedwar Consortiwm Gwella Safonau Ysgolion yng Nghymru.

2.2 Rhaniad Gogledd Cymru ar gyfer 2015/16 yw £30,939,693, gyda Llywodraeth Cymru yn gorfodi cyfraniad o £2,263,071, yn rhoi cyfanswm cyllid GGA o £33,549,764.

2.3 Yn dilyn trafodaethau rhwng Penaethiaid Addysg Gogledd Cymru, penderfynwyd cysylltu rhaniad cyllid GGA i'r Awdurdodau unigol i'r sail oeddynt yn derbyn yr 11 grant blaenorol.

2.4 Rhaniad Gwynedd o'r grant yw £5,729,482 gyda'r Adran Addysg yn gorfod cyfrannu £578,591, yn rhoi cyfanswm cyllid GGA Gwynedd £6,308,073.

**3. Dyraniad Ysgolion**

3.1 Amgeir tabl (atodiad 1) yn dadansoddi dyraniad ysgolion unigol £4,535,668 gyda sail y dosbarthiad fel y ganlyn -

GGA Cyfnod Sylfaen : fformiwla penodol yn bennaf ar sail disgyblion cyfnod sylfaen
GGA Rhwydwaith 14-19 : yn bennaf ar sail cyrsiau penodol a ddarperir
GGA Eraill : 80% nifer disgyblion 20%, cinio am ddim

3.2 Ar ran ysgolion mae'r Adran Addysg yn cyfrannu £539,223 at gostau Canolfannau Iaith ac £289,463 at gyrsiau disgyblion Rhwydwaith 14-19 sy'n cael eu darparu gan Golegau Addysg Bellach.

3.3 Cyfanswm 3.1 a 3.2 yw £5,364,354, cyfateb i ganran datganoli 85%.

3.4 Ychwanegir y Grant Amddifadedd Disgyblion yn y tabl er gwybodaeth.

**4. Defnydd arall**

4.1 Cyfnod Sylfaen : £246,740 ar gyfer cyflogi athrawon i fynychu (am 10% o'u hamser agor) Mudiadau Meithrin gwirfoddol, swyddog a chostau hyfforddi

4.2 Canolfannau Iaith : £200,500 ar gyfer gweddill y costau rhedeg gan gynnwys cludiant disgyblion, cydlynwyr iaith ayb

4.3 Rhwydwaith 14-19 : £49,465 ar gyfer Cydlynydd a man gynlluniau penodol

4.3 Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig : £161,277 ar gyfer gwasanaethau addysgol

4.4 Arall : £114,860 ar gyfer cynlluniau penodol gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth

4.5 Rheolaeth a gweinyddiaeth : £63,080 ar gyfer ariannu cefnogaeth GwE a'r Adran Gyllid

**5. Manylion Pellach**

5.1 Y GwE sydd yn gyfrifol am sicrhau bod ysgolion yn cyflawni gofynion y GGA ac am gefnogi'r ysgolion i'r perwyl hynny.

5.2 Amgaewyd er gwybodaeth llythyr arweiniad 1 a 2 gan GwE ynghyd ag templed ar gyfer dadansoddi defnydd o'r cyllid yn unol ag amodau'r grant.

5.3 Y GwE sydd hefyd yn gyfrifol am gefnogi ysgolion gyda'r Grant Amddifadedd Disgyblion.